# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 26 Mehefin 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000'

**C11 Cynog Dafis:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu eu cymryd i ddelio â chanfyddiadau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000'? (OAQ12148)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r adroddiad perfformiad yn ymwneud â blwyddyn ariannol lawn 1999-2000 ac, o ganlyniad, mae'n cynnwys cyfnod cyn i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Yn y cytundeb partneriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd dros y cyfnod sydd yn weddill o dymor presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Hybu Cymru Ledled y Byd

**C12 Pauline Jarman:** A yw Prif Weinidog Cymru yn bwriadu mynd i unrhyw uwchgynadleddau rhyngwladol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn hybu Cymru ledled y byd? (OAQ12143)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes gennyf gynlluniau penodol i fynychu unrhyw gynadleddau rhyngwladol dros y flwyddyn nesaf ond, o bryd i'w gilydd, yr wyf yn mynychu cyfarfodydd yn Ewrop gyda fy nghymheiriaid o lywodraethau haen ranbarthol eraill Ewrop ac eraill.

Yr wyf newydd ddychwelyd o arwain cenhadaeth fasnach y Cynulliad i'r Ariannin a Chile, lle cyfarfûm â llywyddion y ddwy wlad.

### Gweithredu'r Ymrwymiadau yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C13 Janet Davies:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd yn ddiweddar i sicrhau bod yr ymrwymiadau yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' yn cael eu gweithredu? (OAQ12142)

**Prif Weinidog Cymru:** Gwnaethpwyd datganiad ar gynnydd ymrwymiadau'r cytundeb partneriaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2001. Yr wyf yn falch o ddweud ein bod, ers hynny, wedi cyflwyno archwiliadau deintyddol a phresgripsiynau am ddim i bobl ifanc dan 25 oed.

Yr wyf yn bwriadu sicrhau bod yr holl ymrwymiadau wedi eu hanrhydeddu a'u rhoi ar waith erbyn 1 Mai 2003. Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad ynghylch ein llwyddiannau yn rheolaidd.

### Cydlynu Polisi rhwng San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

**C14 Richard Edwards:** Pa effaith fydd y Swyddfa Gabinet ddiwygiedig yn Whitehall yn ei chael ar gydlynu polisi rhwng San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ12156) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Sefydlu Perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru

**C15 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag aelodau newydd Cabinet San Steffan er mwyn sefydlu perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ12161) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Datblygu Polisi'r Cynulliad

**C16 Alun Cairns:** Pa effaith y mae'r cytundeb partneriaeth wedi'i chael ar ddatblygu polisi'r Cynulliad? (OAQ12137)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r cytundeb partneriaeth yn cynnig darpariaeth ar gyfer dulliau cyflwyno cadarn a sicr i bobl Cymru. Gwnaethpwyd datganiad ar 20 Mawrth 2001 ynghylch yr hyn a gyflawnwyd hyd yma mewn perthynas â 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'.

## Gwella Safon Bywyd Pobl yn Sir Fynwy

**C17 David Davies:** Sut y mae gweithredu'r polisïau a nodwyd yn y cytundeb partneriaeth wedi gwella safon bywyd pobl yn Sir Fynwy? (OAQ12153)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn tebyg ar 19 Mehefin 2001. Nod y cynigion sydd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yw cynnig buddiannau i bobl Sir Fynwy, a phobl ledled Cymru.

Ers inni wneud y cytundeb, yr ydym wedi datblygu cynigion radical ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Yr ydym hefyd wedi penodi Comisiynydd Plant Cymru ac yr ydym wedi ennill deddfwriaeth i sicrhau bod ganddo fwy o bwerau. Yr ydym yn targedu ein gweithgareddau at ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy gyfrwng Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yr ydym wedi cyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion i blant rhwng pump a saith oed, archwiliadau deintyddol a phresgripsiynau am ddim i bobl ifanc dan 25 oed a mynediad am ddim i amgueddfeydd yng Nghymru. Yr ydym hefyd wedi dechrau'r broses o lunio'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd. Bydd pob un o'r polisïau hyn yn cynnig buddiannau i bobl Sir Fynwy.

## Hybu Cymru

**C18 Geraint Davies:** A yw Prif Weinidog Cymru yn bwriadu mynychu unrhyw uwchgynadleddau rhyngwladol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn hybu Cymru? (OAQ12146)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes gennyf gynlluniau penodol i fynychu unrhyw gynadleddau rhyngwladol dros y flwyddyn nesaf, ond yr wyf yn mynychu cyfarfodydd yn Ewrop yn rheolaidd gyda fy nghymheiriaid o lywodraethau rhanbarthol eraill Ewrop. Mae'r ddwy agwedd yn bwysig er mwyn datblygu a chodi proffil Cymru ledled y byd, sef un o flaenoriaethau allweddol y Cabinet.

Yr wyf newydd ddychwelyd o arwain cenhadaeth fasnach y Cynulliad i'r Ariannin a Chile, lle cyfarfûm â llywyddion y ddwy wlad.

## Atebolrwydd Cyhoeddus y Cabinet

**C19 Dafydd Wigley:** Pa gynlluniau sydd gan Brif Weinidog Cymru i gynyddu atebolrwydd cyhoeddus ei Gabinet? (OAQ12141)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Cabinet y Cynulliad yn atebol i'r Cynulliad mewn perthynas â'i holl weithrediadau ac, yn y pen draw, i bobl Cymru yn y blwch pleidleisio. Mae fy ymrwymiad i lywodraeth agored yn rhan o'r broses hon. Dyna pam y penderfynais, ar ôl cael fy mhenodi'n Brif Weinidog Cymru, y dylid cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Cabinet a dyna pam yr wyf bellach wedi penderfynu y dylid cyhoeddi papurau'r Cabinet hefyd.

## Fforwm Economaidd Gogledd Cymru

**C20 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ynghylch ei gais i raglen gweithredu arloesol yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ12154)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath. Fodd bynnag, yn dilyn y cynigion a amlinellir yn y papur ymgynghorol, 'Tuag at Gymru Gynaliadwy', sefydlwyd pwyllgor llywio annibynnol—a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol—i baratoi cais Cymru am arian dan y rhaglen Ewropeaidd newydd hon. Mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu ar wahân at gadeiryddion y grŵp sgiliau a'r grŵp busnesau cystadleuol yn Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ynghylch eu cynnig prosiect.

## Diwygio'r Targedau a Geir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C21 Jocelyn Davies:** A oes cynlluniau gan Brif Weinidog Cymru i ddiwygio'r targedau a geir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12150) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cyflawni'r Cynigion a Geir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C22 Gareth Jones:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r gymuned fusnes yng ngogledd Cymru mewn perthynas â chyflawni'r cynigion a geir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12147)

**Prif Weinidog Cymru:** Cefais gyfarfod gyda Chlwb Busnes Gogledd Cymru nos Iau 21 Mehefin yng Ngwesty St George yn Llandudno. Trafodasom nifer o faterion a oedd yn ymwneud â'r Cynulliad a gogledd Cymru.

## Effeithiau Ehangu'r UE ar Gymru

**C23 Christine Chapman:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda chyrff perthnasol ynghylch effeithiau ehangu'r Undeb Ewropeaidd ar Gymru? (OAQ12158) ***Tynnwyd yn ôl.***